**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 28 Medi 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J A Hale | M Jones | L V Walton |
| T M White | | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
Y V Jardine

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd Cyril Anderson

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lisa Banks | Swyddog Cynllunio DLl |
| Adrian Jeremiah | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Rhian Millar | Cydlynydd Ymgynghoriadau |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P B Smith

---

**10 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**11 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.

**12 Cydgynhyrchu.**

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio DLl gyflwyniad ar Gydgynhyrchu a oedd yn cynnwys y canlynol: -

- Strategaeth Cydgynhyrchu
- Cefndir
- Y Daith i Wreiddio Cydgynhyrchu
- Beth yw ystyr Cydgynhyrchu?
- Egwyddorion
- Yr hyn nad yw'n Gydgynhyrchu
- Gwneud er mwyn/ Gwneud ar gyfer/ Gwneud gyda
- Sut gall hyn weithio?

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Dealltwriaeth o Gydgynhyrchu - yr hyn yw cydgynhyrchu a'r hyn nad yw'n gydgynhyrchu
- Newid diwylliannol o ran ffyrdd o weithio
- Ystyr Cydgynhyrchu - pawb yn gyfartal â llais cyfartal
- Comisiynu gwasanaethau i helpu gyda Chydgynhyrchu - Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Rhoi Pobl yn Gyntaf Abertawe
- Yr hyn sy'n cael ei Gydgynhyrchu ar hyn o bryd - dylunio, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau
- Effaith Cydgynhyrchu ar staffio yn ogystal â chostau a gofynion hyfforddiant.
- Gwasanaethau/sefydliadau bach a arweinir gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Gofal cartref
- Maglau Cydgynhyrchu - e.e. effaith ar staffio os yw sefydliadau eraill yn cyflwyno gwasanaethau
- Unrhyw wersi a ddysgwyd neu arfer gorau o Gydgynhyrchu hyd yma
- Dewis pobl ar gyfer Cydgynhyrchu - gweithio gyda chymunedau i nodi pobl i gymryd rhan a chysylltu â Chydlynwyr Ardaloedd Lleol, Aelodau Ward, Hybiau Cymunedol etc.
- Sut i gyflawni sefyllfa o weithio gyda'n gilydd ac ymddiriedaeth mewn sefyllfa lle mae diffyg ymddiriedaeth - rhannu pŵer a meithrin cysylltiadau
- Ymrwymiad i fwrw ymlaen gyda Chydgynhyrchu ar draws y cyngor cyfan

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cynllunio DLl.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

## 13 Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys.

Cyflwynodd y Cydlynydd Ymgynghori yr adroddiad ar Ymgynghori a Chynnwys.

Roedd gan y cyngor Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys ers 2005, a oedd wedi darparu fframwaith effeithiol i gwblhau gweithgareddau ymgynghori. Roedd y Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys Ddrafft 2021, fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn strategaeth wedi'i diweddaru a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau ac yn rhoi mwy o amlygrwydd i'r ymagwedd cynnwys y cyhoedd at sicrhau yr ymgynghorir â phreswylwyr Dinas a Sir Abertawe a sefydliadau partner a'u cynnwys mewn modd effeithiol ac ystyrlon.

Anogwyd y Pwyllgor i ddarparu unrhyw adborth ar y strategaeth ddrafft yn uniongyrchol i'r Cydlynydd Ymgynghori.

**Penderfynwyd** y dylid darparu unrhyw adborth ar y Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys Ddrafft i'r Cydlynydd Ymgynghori o fewn pythefnos.

**14 Cynllun Gwaith 2021/22.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2021/22.

Awgrymwyd y dylai'r Cydlynydd Ymgynghori roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys ym mis Tachwedd 2021.

Cynigiwyd nifer o weithdai: -

- Gweithdy Cydgynhyrchu - Hydref 2021
- Gweithdy Strategaeth y Gweithlu - Tachwedd 2021
- Gweithdy Diwylliant Sefydliadol - yn gynnar yn 2022

**Penderfynwyd** nodi Gynllun Gwaith 2021-22 yn unol â hyn.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.30 pm

**Cadeirydd**